Llŷn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 18 • 2024
www.ahne-llyn.aonb.cymru

# Llygad Llŷn

## Newyddlen AHNE Llŷn

am ddim

*Yn y rhifyn hwn*

**Morwellt**

**Ffrindiau'r AHNE**

**Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE**

**Ecoamgueddfa**

**Terfynau Traddodiadol**

**Tirweddau Cynaliadwy**









# Croeso

**Wel mae'n rhyfedd meddwl fod Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi bod ym Mhen Llŷn fis Awst diwethaf! Roedd yn syndod gweld pentref newydd ym Moduan a chymaint o brysurdeb. Roedd yr Uned AHNE yn bresennol yn stondin Cyngor Gwynedd ar sawl diwrnod a braf oedd gweld pobol yn mwynhau'r ŵyl. Bellach mae'r cae lle roedd cymaint o fwrlwm yn ôl yn borfa a dim ond ambell arwydd "Croeso" yn dal ar ôl i'n hatgoffa o'r wythnos.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio ar weithredu prosiectau Tirweddau Cynliadwy Lleoedd Cynaliadwy sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys adnewyddu grisiau Porth Ysgo, ailwneud y Ganolfan yn Llithfaen a rhoi sylw i rai o diroedd comin yr ardal. Ceir mwy o wybodaeth am y prosiectau yma, a phrosiectau eraill megis adfer morwellt yn y rhifyn yma o'r Llygaid.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy eto wedi cefnogi nifer o brosiectau amgylcheddol diddorol yn ardal Llŷn. Cewch wybod mwy am y prosiectau yma ac am y Gronfa ei hun a'r broses ymgeisio am grant yn y newyddlen.

Yn y rhifyn hwn hefyd cewch wybodaeth am waith Ffrindiau yr AHNE sydd wedi ei sefydlu i roi cyfle i bobol gyfrannu yn wirfoddol at waith ymarferol yn yr ardal. Mae'r criw yma wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i wella mynediad ac adfer cynefin yn yr AHNE.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am Llygad Llŷn ac am waith yr Uned AHNE. Hefyd hoffem glywed eich syniadau am brosiectau newydd fyddai o les i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu bethau yr ydych yn meddwl sydd angen sylw. Cysylltwch ar bob cyfri ar e-bost, trwy y wefan, ar y ffôn neu drwy lythyr.

Mae Llygad Llŷn yn cael ei noddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac rydym yn ddiolchgar am y grant sy'n gyfraniad gwerthfawr at y costau dylunio ac argraffu.

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 194

**E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.cymru

Dilynwch ni ar Instagram! **@ahnellynaonb**

# Cynnwys

**Eitemau**

Croeso a Map ....................................2,3

Morwellt ............................................4,5

Ffrindiau'r AHNE ................................6,7

Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

- Adfer Cynefin y Fran Goesgoch ...........8
- Diogelu Enwau ....................................9
- Storws Enlli ......................................10

Ecoamgueddfa ...................................11

Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ....................12,13,14

Terfynau Traddodiadol .........................15

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth 2023 .........16

**CYHOEDDWYD GAN:** Uned AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:**
'Stage' Chwarel Llanbedrog gan Dafydd Hughes

**ARGRAFFWYD GAN:**
Gwasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

**CEFNOGWYD GAN:**
Cyngor Gwynedd Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## TÎM AHNE LLŶN – mae tri aelod o staff yn gweithio yn y gwasanaeth:

**Swyddog AHNE Llŷn**
**Bleddyn Prys Jones**
Mae Swyddog AHNE Llŷn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar faterion craidd yr AHNE a delio gyda materion cenedlaethol.

**Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn**
**Morus Llwyd Dafydd**
Y Swyddog Prosiectau sy'n arwain ar brosiectau yr Uned AHNE, gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a hyrwyddo'r AHNE.

**Warden Cefn Gwlad AHNE**
**Kevin Roberts**
Gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru mae'r Uned wedi penodi Warden Cefn Gwlad. Bydd y warden yn arwain ar brosiectau mynediad a natur yn yr AHNE.

# map AHNE Llŷn



# Morwellt





Mae hi yn gyfnod cyffrous yn nhermau adfer morwellt ym Mhen Llŷn, gydag Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a'u partneriaid yn gweithio ar ddau brosiect uchelgeisiol er mwyn ceisio adfer y cynefin holl bwysig yma ar hyd ein harfordir.

Morwellt Achub Cefnfor a Natur am Byth ydi enwau'r ddau brosiect yma sydd wedi eu hariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ac felly gyda chymorth holl bwysig gwirfoddolwyr a'r gymuned leol byddwn yn plannu morwellt dros ardal o 10 hectar ym Mhen Llŷn ac Ynys Môn, a byddwn hefyd yn edrych ar uwchraddio systemau angori er mwyn gosod rhai sydd yn fwy cyfeillgar i'r morwellt.

## Beth ydi morwellt?

Morwellt yw'r unig blanhigyn blodeuol sydd yn byw yn gyfan gwbl yn y môr. Yn wahanol i wymon, mae ganddo wreiddiau, blodau a dail - ac felly yn debyg iawn i blanhigion sydd i'w cael a'r dir sych. Gyda'i gilydd mae planhigion morwellt yn tyfu mewn ardal i greu dôl morwellt, sydd yn gynefin cynhyrchiol a phwysig iawn gyda nifer o fanteision i bobl a'r blaned.

Mae dolydd morwellt yn cael eu hadnabod fel ardaloedd holl bwysig ar gyfer meithrin pysgod ifanc, a'u dail hir niferus yn rhoi lloches berffaith i greaduriaid bach allu cysgodi a chuddio rhag ysglyfaethwyr. Mae'r dail hefyd yn lleihau grym y tonnau drwy ychwanegu ffrithiant, a drwy hynny yn creu amgylchedd llawer mwy heddychlon i greaduriaid bach allu ymgartrefu ynddo.

Drwy ffotosynthesis mae morwellt yn cyflenwi'r golofn ddŵr gydag ocsigen sydd yn atynfa gref i fywyd gwyllt sydd eisiau manteisio ar yr amodau hyn. A gyda 30 gwaith mwy o anifeiliaid yn byw ymysg y morwellt o'i gymharu gyda'r cynefinoedd tywodlyd gerllaw, mae'n hwb holl bwysig ar gyfer bioamrywiaeth. Ond nid bywyd gwyllt yn unig sydd yn manteisio ar y cynefin pwysig yma. Wrth i bysgod ifanc dyfu a mudo i'r moroedd mawr, mae stociau pysgod masnachol yn cael eu hailgyflenwi. Ac felly mae cynefinoedd fel morwellt yn holl bwysig ar gyfer dod a bwyd i'r bwrdd, tra yn hefyd cefnogi ein busnesau lleol.

Un swyddogaeth bwysig arall mae morwellt yn ei wneud ydi gweithredu fel suddfan a storfa garbon. Ac er mai dim ond 0.2% yn unig o wely'r môr sydd yn cael eu gorchuddio gan forwellt, mae morwellt yn gyfrifol am fwy na 10% o storfa garbon y cefnfor. Mae felly yn chwarae rhan ganolog yn rheoleiddio'r hinsawdd.

Ond serch yr holl ffeithiau cadarnhaol, mae morwellt yn blanhigyn hynod fregus, ac yn anffodus, ar hyd arfordir Prydain, mae'n debyg ein bod wedi colli hyd at 92% o'n dôl morwellt. Mae afiechyd, ansawdd dŵr, difrod gan angorfeydd, ac effeithiau anthropogenig eraill yn cael eu hamlygu fel rhai o'r rhesymau dros y dirywiad yma.

## Prosiect Morwellt Achub Cefnfor

Er mwyn adfer y cynefin pwysig yma yng ngogledd Cymru, rydym gyda nifer fawr iawn o wirfoddolwyr, yn ystod mis Awst yn cynaeafu hadau o ddôl morwellt mwyaf Cymru, sef ddôl morwellt Porthdinllaen. Rydym yn casglu'r hadau drwy ddeifio sgwba, snorclo neu rydio. Mae'n lot fawr o hwyl, ac mae'n gyfle gwych i gymdeithasu a dod i





nabod pobl newydd. Mae'r hadau a gasglwyd wedyn yn cael eu plannu ar ddiwedd tymor y gaeaf er mwyn rhoi cyfle iddynt egino a manteisio ar egni'r haul dros ddyddiau hir y gwanwyn a'r haf.

Rydym eisoes wedi dechrau plannu hadau morwellt mewn dau safle ym Mhen Llŷn, sef Carreg y Defaid ger Llanbedrog, a Phenychain. Yn ystod wythnos gyntaf Chwefror 2024, daeth griw mawr o wirfoddolwyr i'n cefnogi i blannu 340,000 i hadau yn y safleoedd adfer hyn. Roedd hi'n wythnos lwyddiannus iawn ac fel prosiect hoffem ddiolch yn fawr iawn am yr holl gefnogaeth rydan ni wedi ei dderbyn yn ystod dyddiau casglu a phlannu hadau morwellt.

Mae criwiau bach o wirfoddolwyr hefyd wedi bod yn weithgar iawn efo staff ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llŷn wrth gasglu darnau o forwellt sydd wedi ei rhwygo o'r ddôl ar ôl stormydd, a'i olchi i'r lan ym Mhorthdinllaen. Ac ar ôl eu prosesu am resymau bioddiogelwch, mae'r darnau o forwellt yma wedyn yn cael eu trawsblannu i'r safleoedd adfer. Gydag arwyddion cynnar positif yn dangos bod y gwaith trawsblannu yn effeithiol, mae hyn yn newyddion gwych a chyffrous iawn!

## Prosiect Natur am Byth

Elfen arall o'n gwaith yw edrych i mewn i addasu ac uwchraddio angorfeydd er mwyn galluogi i ddefnyddwyr cychod barhau i ddefnyddio a mwynhau gweithgareddau ar y môr fel yr arfer, ond gan warchod a lleihau effeithiau newidiol i'r morwellt. Rydym yn gwneud hyn drwy newid angorfeydd traddodiadol, sydd fel arfer yn defnyddio cadwyn fetel i angori cwch i floc concrit neu angor ar wely'r môr. Ac felly trwy brosiect Natur am Byth rydym yn gosod angorau helical, sydd wrth eu gosod, yn llawer llai niweidiol i'r morwellt o'i gymharu â'r dull traddodiadol. Hefyd, yn hytrach nag defnyddio cadwyn fetel i rwymo'r cwch i'r angor (sydd yn dueddol o sgwrio a chrafu gwely'r môr a'r morwellt), rydym yn defnyddio deunydd cryf sydd hefyd yn gallu arnofio. Mae hyn yn golygu bod y morwellt yn cael ei warchod drwy leihau neu liniaru ar y sgwrio a chrafu.

Gan fod hanes a threftadaeth forwrol holl bwysig i Borthdinllaen, a'r amodau cysgodol yn, ac wedi darparu hafan ddelfrydol i angori cychod dros y canrifoedd, mae sicrhau bod yno angorfeydd o safon uchel sydd hefyd yn gwarchod y morwellt yn hanfodol. Ac felly rydym ar hyn o bryd yn y broses o dreialu pedwar o'r angorfeydd uwchraddedig, gan fonitro a chadw llygaid ar unrhyw effaith mae hyn yn gael ar y morwellt. Os yw'r treialon yn llwyddiannus, y gobaith yn y pendraw yw gosod rhagor o'r angorfeydd uwchraddedig ym Mhorthdinllaen er mwyn ceisio ehangu arwynebedd y ddôl a chynyddu'r buddion mae pobl a bywyd gwyllt yn ei dderbyn o'r cynefin yma.



## Codi ymwybyddiaeth am forwellt

Mae'r prosiectau hyn hefyd wedi bod yn gyfle da i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd morwellt, ac mae'r ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedi rhedeg sawl taith gerdded i weld dôl morwellt Porthdinllaen yn ystod y llanw mawr. Mae'r teithiau tywys yma wedi bod yn gyfle gwych i drafod buddion y cynefin yma, ac i ateb unrhyw gwestiynau. Diolch i bawb am ymuno a ni ar y teithiau hyn, a braf iawn ydi cael rhannu ein brwdfrydedd am y planhigyn yma gyda chi. Mae mwy o deithiau tywys ar y gweill felly cadwch lygaid ar wefannau cymdeithasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau am ragor o wybodaeth.

Braf hefyd yw cael mynd i siarad gyda grwpiau cymunedol, a hefyd cael ymweld ag ysgolion lleol i drafod yr hyn rydan ni'n ei wneud. Ac ar ôl ymweld ag ysgolion Pen Llŷn y flwyddyn ddiwethaf wrth ddosbarthu Pecyn Addysg Tir a Môr – sef adnodd addysgiadol newydd yn seiliedig ar yr amgylchedd lleol, gwych yw gallu ail ymweld â'r ysgolion hyn gan roi cyfle i bobl ifanc yr ardal i fod yn rhan o'r gwaith adfer morwellt yma. Dyma ychydig luniau o rhai o blant Ysgol Pentreuchaf yn rhoi help mawr i ni wrth lenwi bagiau hemp gyda thywod yn barod i roi hadau ynddynt cyn eu plannu. Llwyddodd y plant hefyd i gasglu 227 o ddarnau morwellt ar ein hymweliad i Borthdinllaen i helpu adfer a gwarchod morwellt Pen Llŷn. Gwaith da blant!

# Ffrindiau'r AHNE

Grŵp gwirfoddol AHNE Llŷn a sefydlwyd nôl yn 2021 ydi Ffrindiau'r AHNE. Rhoddir cyfle i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda gwaith ymarferol yn yr Ardal o Harddwch yma ym Mhen Llŷn. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud gwaith fel torri llystyfiant, cynnal llwybrau a chasglu sbwriel. Mae dros ugain o bobol wedi cofrestru ac fel arfer mae rhwng 5 a 12 yn dod i'r dyddiau. Rydym yn lwcus iawn o gael criw da a gweithgar sydd yn troi fyny yn rheolaidd. Cynhelir y gweithgareddau ar ddydd Gwener fel arfer o dan arweiniad swyddogion yr AHNE. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r criw am eu hymdrech a'u hamser i gynnal a gwella nodweddion yr AHNE.

Rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith trwy ein tudalen Instagram **@ahnellŷn**







## Ailagor llwybr rhwng Gyrn Goch a Trefor...

Un o brosiectau mwyaf y criw yn ystod 2023/24 oedd ail-agor y llwybr ochor uchaf i'r llwybr arfordir rhwng Gyrn Goch a Trefor. Roedd y llwybr yma wedi bod ar gau ers 10 mlynedd, ag nid oedd posib ei gerdded oherwydd y llystyfiant trwchus ar ei hyd. Cyn dechrau y gwaith roedd angen caniatâd y tirfeddianwyr, ag cafwyd hynny. Roedd y gwaith yma yn cysylltu gyda prosiect blaenorol gan AHNE Llŷn yn ardal Gyrn Goch lle codwyd pont dros afon Hen. Treuliwyd 8 diwrnod o waith yma i gyd ag mae'r llwybr nawr ar agor diolch i ymdrechion Ffrindiau'r AHNE.

Mae y llwybr yma yn bwysig am sawl rheswm – mae'n arwain ar dir mynediad agored, ag mae'r llwybr hefyd yn rhan o daith y Pererin tuag at Ynys Enlli. Y gobaith yn y pen draw ydi fod y llwybr yn medru bod yn rhan o'r llwybr arfordir, gan ei fod yn cynnig golygfeydd llawer gwell na'r llwybr presennol sydd yn mynd gyda'r ffordd fawr.

## Clirio Plastig Porth Neigwl...

Treuliwyd diwrnod oer ym Mhorth Neigwl yn casglu ysbwriel oddi ar y traeth nôl yn mis Tachwedd 2023. Diolch i wirfoddolwyr Ffrindiau'r AHNE casglwyd dros 15 bag ysbwriel, gyda rhan fwyaf ohono yn ysbwriel mân iawn sydd yn achosi mwy o niwed i'r amgylchedd.

## Garn Boduan...

Treuliwyd sawl diwrnod yn ailagor llwybr i fyny at fryngaer Garn Boduan. Roedd eithin a mieri wedi cau y llwybr, ag roedd rhaid torri y gwyllt yn ôl. Mae'r llwybr nawr ar agor ag mae posib cerdded fyny'r Garn o gyfeiriad Nefyn.

Buddion gwirfoddoli

- Sialens newydd. Trwy wirfoddoli gallwch herio'ch hun i roi cynnig ar rywbeth gwahanol, cael profiad newydd
- ac ymarfer defnyddio'ch sgiliau ymarferol.
- Cael hwyl! Mae mwynhau a chael hwyl yn rhan o wirfoddolwyr yn ogystal â'r gwaith ei hun.
- Cyfrannu i'r gymuned. Trwy wirfoddoli gallwch deimlo'n rhan o rywbeth y tu allan bywyd arferol.
- Sgiliau newydd. Gall eich helpu i ddysgu sgiliau ac ennill profiadau newydd.

# Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

## Beth yw hi?

Cronfa grant gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ac mae pob AHNE yn Nghymru yn derbyn arian ar gyfer ei ddyrannu i brosiectau addas.

Mae gofyn i brosiectau llwyddiannus annog cynaladwyedd, a gwneud gwahaniaeth positif i gymunedau mewn ffyrdd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Gall unrhyw grŵp, bwyllgor, ymddiriedolaeth neu gymdeithas ymgeisio am nawdd.
Am fwy o wybodaeth am y Gronfa – cysylltwch â **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**

## Prosiectau 2023-24



# Adfer Cynefin y Fran Goesgoch

Nod y prosiect hwn yw gwella cynefin ar gyfer brain coesgoch yn ardal Carreg, Aberdaron, o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig 'Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli', er mwyn adfer pori drwy ffensio darn o dir. Mae oddeutu 60 pâr yn nythu yn yr AHNE a mae'n bwysig ein bod ni yn cynnal y niferoedd yma.

Cyn gosod y ffens roedd hi yn anodd iawn i bori stoc yma, oherwydd y perygl o golli defaid. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg drwy'r uned reoli hon ac oherwydd ei fod yn gul iawn mewn mannau, gall cerddwyr a'u cŵn godi ofn ar stoc. Mae tan-bori wedi cynyddu uchder cyffredinol y gwellt, gan gyfyngu ar gyfleoedd chwilota y frân goesgoch. Fel rhan o'r prosiect mae ffensys wedi eu gosod ar hyd y llethr arfordirol, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw ddefaid neu wartheg yn mynd dros y clogwyn ac wrth hynny yn adfer hyder y tenant i bori'r uned reoli hon.

Bydd gwartheg a defaid yn cael gwared ar lystyfiant marw ac yn atal planhigion a'u blodau rhag cael eu claddu dan ddeunydd marw'r flwyddyn flaenorol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y planhigion blodeuol, fel grug, grug y mêl, seren y gwanwyn. Mae hefyd yn golygu y bydd brain coesgoch yn gallu cael gafael ar pryfaid yn y pridd i'w bwydo – mae angen glaswellt byr arnyn nhw i gael eu pig i mewn iddo. Petai'r safle'n cael ei adael, mae'n debyg y byddai llawer ohono'n troi'n redyn, grug ac eithin trwchus – cynefin anaddas i'r brain coesgoch ac i fioamrywiaeth

Mae'r prosiect yn rhan o'n gwaith ehangach i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Mae cyfradd colli bioamrywiaeth ar draws y wlad yn achos i bryder, gan effeithio ar rywogaethau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol.






# Diogelu Enwau





Dechreuwyd prosiect 'Diogelu Enwau Llanengan' pan sylweddolwyd fod perygl i enwau cynhenid yr ardal fynd yn angof a bod enwau newydd estron yn cael eu defnyddio yn eu lle. Bu'r sylweddoliad hwn yn ysgogiad i griw bychan ddod ynghyd i geisio gwella'r sefyllfa.

Y prif angen oedd arwyddion ar lonydd bach, llwybrau a ffrwd fechan fel bod yr enwau gwreiddiol yn weladwy. Penderfynwyd ar lechi i nodi adeiladau a safleoedd hanesyddol o bwys a bwrdd gwybodaeth i gyfleu peth o hanes yr adeiladau hanesyddol megis yr Eglwys, Ffynnon Engan, corn yr hen waith plwm, y felin wynt ac olion o gyfnod y rhyfel ym Mhorth Neigwl. 'Roedd bwriad yn wreiddiol i gynhyrchu llyfr o hen luniau ond wrth ymchwilio a thrafod daeth yn amlwg fod digon o ddeunydd ar gyfer llyfr yn cyflwyno hanes y pentref. Diolch i gefnogaeth y Gronfa fe wireddwyd y cwbl ac mae'r arwyddion a'r llechi i'w gweld o gwmpas y pentref.

Dangosodd y gymuned ei chefnogaeth pan werthwyd 250 copi o'r llyfr 'Cofio Llanengan' o fewn ychydig wythnosau i'w argraffu.











# Storws Enlli

Prosiect o dan arweiniad Ymddiriedolaeth Ynys Enlli oedd hwn ar gyfer adfer y Storws ar Ynys Enlli. Roedd hwn yn un o brosiectau mwyaf yr ariannwyd gan y Gronfa gan gael grant o £30,000. Fe ddaru yr Ymddiriedolaeth lwyddo i gael grant o £40,000 gan y Gronfa Treftadaeth Archeolegol ar gyfer y gwaith yma hefyd, a cyfrannu £12,000 eu hunain.

Mae'r Storws yn un o adeiladau mwyaf hynafol Ynys Enlli a dyma'r adeilad sy'n croesawu pob ymwelydd i'r Ynys wrth iddynt gyrraedd y Cafn. Mae'r Storws wedi ei ddefnyddio fel storfa ar gyfer pysgota, amaeth a deunyddiau hanfodol i fywyd yr Ynys.

Roedd y prosiect yma'n ymwneud â chyflawni gwaith adeiladu hanfodol i ddiogelu cragen yr adeilad gan fod cyflwr yr adeilad wedi mynd yn fregus ac nid oedd modd ei ddefnyddio. Fe ganolbwyntiwyd ar gynnal y strwythur a diogelu'r to a'r waliau, y ffenestri a'r mynediad. Y sialens fwyaf wrth wireddu y prosiect yma oedd cael gweithwyr a deunyddiau ar yr Ynys. Er mwyn gwneud hyn roedd raid cael tywydd braf am gyfnod hir, a chael gweithwyr oedd yn hapus i aros ar yr Ynys am gyfnod. Roedd hyn yn golygu fod rhaid i'r gwaith eu wneud yn ystod misoedd yr Haf. Er gwaethaf yr anawsterau roedd y prosiect yn lwyddiant, a llwyddwyd i orffen y Storws yn mis Medi 2023. Roedd y gwaith yma yn beilot da ar gyfer y gwaith adfer arall sydd angen ei wneud ar weddill yr adeiladau ar Enlli.

**Ers cwblhau y gwaith y gobaith yw y bydd yr adeilad yn le i:**

- **addysgu gwirfoddolwyr,**
- **croesawu ac addysgu ymwelwyr,**
- **man cyfarfod a chysgod rhag y tywydd,**
- **man gwybodaeth a chroesawu i Enlli.**

**Mae angen gwarchod adeiladau Enlli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn yr un modd a gwarchod enwau, hanesion, byd natur, yr iaith Gymraeg a diwylliant Enlli.**





# ecoamgueddfa





Wrth galon cenhadaeth yr Ecoamgueddfa, mae'r gred fod yna linyn arian yn ein tynnu ni oll ynghyd fel pobl, a'r llinyn hwnnw yw'r ymdeimlad o fro ac o berthyn. Mae ein gwaith yn anelu at ddilysu ac atgyfnerthu'r ymdeimlad hwn, a thynnu ymwelwyr i mewn atom yn Llŷn er mwyn iddynt gael blas ar yr ymdeimlad eu hunain.

Nid adeilad diriaethol mo'r Ecoamgueddfa, ond yn hytrach menter rhwng safloedd treftadol Pen Llŷn sy'n edrych ar hunaniaeth llefydd a'r bobl sy'n perthyn iddynt. Mae saith safle yn rhan o'r fenter sef; Nant Gwrtheyrn, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Menter y Felin Uchaf, Porth y Swnt, Plas yn Rhiw, Plas Carmel, ac Oriel Plas Glyn y Weddw. Er mai hon yw'r Ecoamgueddfa gyntaf yng Nghymru, mae'r cysyniad o Ecoamgueddfeydd yn ddellio yn ol i'r 70au. O Ffrainc ddaeth y syniad o ecoamgueddfa yn wreiddiol. Ar hyn o bryd mae dros 300 o ecoamgueddfeydd i'w cael ar hyd a lled y byd a'r mwyafrif o'r rheini yng ngwledydd Ewrop.



Yn ei hanfod, mae'r fenter yn gweithio ar lawr gwlad i sicrhau bod Llŷn yn cael cydnabyddiaeth a pharch fel cartref yn ogystal â chyrchfan sy'n gyforiog o gyfoeth treftadol, diwylliannol ac amgylcheddol, ac sydd â gallu lleol i gynnal ei heconomi ei hun.

Aiff yr Ecoamgueddfa tu hwnt i'r ffyrdd confensiynol o chwythu anadl einioes i mewn i'n hanes, a hynny drwy uno'r hynafol a'r modern mewn modd sy'n hygyrch i bawb. Gwelwn dystiolaeth o hyn drwy wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Ecoamgueddfa. Mae'r rhain yn gweithio fel parthau i goladu cynnwys bob safle dreftadaeth ym Mhen Llŷn – hynny yn nhermau rhannu cynnwys, cylchdeithiau cerdded, blogiau, teithiau rhithioo a chymaint mwy. Mae toreth o wybodaeth yma sy'n caniatáu ichi gael trefn ar eich gweithgareddau yn ystod yr wythnos, neu dros y penwythnos, a hynny boed haul neu hindda.



Am ragor o wybodaeth, cerwch draw i **www.ecoamgueddfa.org** neu dilynwch ein cyfrifon cymdeithasol, @ecoamgueddfa.

Ariannir y prosiect hwn gan Llywodraeth y DU drwy raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin.



# Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy

**O dan gynllun Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru, yn ogystal â'r Parciau Cenedlaethol, wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiectau amgylcheddol. Mae'r grant yn cael ei anelu at brosiectau sy'n ymwneud gyda twristiaeth cynaliadwy, adfer natur, cefnogi cymunedau a dad-garboneiddio.**

**Mae'r rhaglen grant yma yn rhedeg am dair blynedd, sef 2022-25.**

**Yma ceir gwybodaeth am y prosiectau y buom yn gweithio arnynt yn 2023-4:**

## Mynediad Porth Ysgo, Rhiw

Mae llwybr cyhoeddus yn arwain i lawr i draeth Porth Ysgo yn ardal Y Rhiw. Tua 30 mlynedd yn ôl roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi adeiladau grisiau pren i hwyluso mynediad i'r traeth a gwella diogelwch. Erbyn 2022 roedd cyflwr y grisiau wedi dirywio yn ddifrifol a phrin yn saff i'w defnyddio.

Roedd y prosiect yn cynnwys tynnu y grisiau pren gwreiddiol a gosod grisiau newydd gan ddefnyddio coed lleol wedi eu trin. Roedd adnewyddu'r grisiau yn sialens oherwydd natur yr ardal, clogwyni serth a mynediad gwael i'r safle. Roedd hefyd angen cwblhau y gwaith yn y gaeaf, gan fod Porth Ysgo yn le poblogaidd yn ystod yr haf. Penodwyd contractwyr lleol i wneud y gwaith, sydd bellach wedi ei gwblhau i safon uchel ac mae mynediad hwylus i Borth Ysgo unwaith eto.





## Tiroedd Comin

Mae hwn hefyd yn brosiect tair blynedd oedd yn parhau ymlaen o 2022-23 gan ganolbwyntio ar 3 tir comin allweddol yn Llŷn sef Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho a Horeb/Mynytho. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd y gwaith ar y ddaear yn cynnwys gwella llwybr trwy'r comin yn Horeb a thorri gor-dyfiant yn Rhos Botwnnog (gyda bwriad o ail-gyflwyno pori i wella cyflwr y safle). Hefyd, drwy gydweithio hefo naturiaethwyr, paratowyd paneli dehongli newydd i'r tair safle ac fe'u gosodwyd yn eu lle gan gontractwr lleol.






## Rhywogaethau ymledol estron

Rydym yn awyddus i adfer natur a hyrwyddo bioamrywiaeth yn yr AHNE ac mae planhigion estron megis jac y neidiwr, canglwm siapaneaidd a rhododendron yn amharu ar rywogaethau lleol. Ar sail hynny datblygwyd y prosiect hwn i geisio adnabod a diffinio lleoliadau ac ardaloedd lle mae'r rhywogaethau estron yn broblem yn yr ardal ac hefyd i dreialu dulliau o'u trin. Bydd mwy o arolygon a thrin y planhigion estron yn digwydd yn 2024-25.

## Coed Cynhenid

**Prosiect dwy flynedd yw hwn i gyflwyno nifer helaeth o goed cynhenid newydd i ardal Llŷn. Yn ystod 2023/24 rhoddwyd pwyslais ar adnabod safleoedd plannu posibl drwy ymchwil ac ymgynghori. Yn dilyn hyn bwriedir plannu coed yn ystod y gaeaf 2024-25.**



# Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Llygad Llŷn

2023

**Pob dwy flynedd mae'r Uned AHNE yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth, nid oes cost am gystadlu, ag mae'r enillwyr yn derbyn tocynnau anrheg.**

Thema y gystadleuaeth llynedd oedd "Yr Amgylchedd Hanesyddol yn Llŷn". Cawsom nifer da o ymgeiswyr, a lluniau o safon uchel iawn. Roedd y gystadleuaeth yn rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos hanes amgylcheddol Penrhyn Llŷn ac yn annog eraill i werthfawrogi'r ardal brydferth yma. O ran cynnwys cawsom luniau yn arddangos ardal Llŷn yn frith o adeiladau, strwythurau ac olion hanesyddol. Mae'r amgylchedd hanesyddol unigryw wedi ei adnabod fel un o rinweddau'r ardal.

Cawsom luniau o dai, capeli, eglwysi, adeiladau fferm, melinau, pontydd, cromlechi, meini hirion, tai crynion, olion chwareli a waliau cerrig.


2il


Ar glawr y cylchgrawn gwelwch lun trawiadol o "stage" chwarel Llanbedrog, Tŷ'n Tywyn gan Dafydd Llyr Hughes. Y llun yma oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth.

I'r chwith gwelwch lun o'r awyr dywyll yn cael ei arddangos uwchben mynachdy Enlli. Y llun yma ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth a cafodd ei dynnu gan Emyr Owen.

Yn cipio'r drydydd wobr yn ein cystadleuaeth ffotograffiaeth mae llun Rhodri Jones o'r goleudy ar Ynys Enlli. Adeiladwyd y goleudy nôl yn 1821, mae'n adeilad arwyddocaol a phwysig ar yr Ynys.


3ydd

## Cafodd y lluniau isod ganmoliaeth uchel yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth Llygad Llŷn 2023


Richard Turner – Ynys Enlli


Lali Jones – Porth Ysgaden


Hen bier Llanbedrog – Dafydd Hughes